Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Lleoliad:
**Sioe Frenhinol Cymru -Llanfair-ym-Muallt**

Dyddiad:
**Dydd Mercher, 25 Gorffennaf 2012**

Amser:
**11:00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:


**Lara Date**
Clerc y Pwyllgor
029 2082 1821
Pwyllgorac@cymru.gov.uk


## Agenda
Sioe Frenhinol Cymru

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2. Craffu ar waith y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd (11:00 - 12:00) (Tudalennau 1 - 8)
E&S(4)-22-12 papur 1

Alun Davies AC, y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd
Gary Haggaty, Pennaeth Amaeth, Pysgodfeydd a'r Strategaeth Wledig

### 3. Ymchwiliad i Glastir - Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd (12:00 - 12:30) (Tudalennau 9 - 16)
E&S(4)-22-12 papur 2

Alun Davies AC, y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd
Gary Haggaty, Pennaeth Amaeth, Pysgodfeydd a'r Strategaeth Wledig

# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

## E&S(4)-22-12 papur 1

## Craffu ar waith y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd

### Portffolio Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Chyllid Ewropeaidd

1. Fel Dirprwy Weinidog y portffolio helaeth hwn, mae cyfle i mi ddatblygu strategaethau newydd, integredig ac arloesol i sicrhau gwell ffyniant yn ein heconomïau amaethyddol, dyframaeth a gwledig, sicrhau ffyniant a chynnydd i'n diwydiannau tir a dŵr, a sicrhau'r manteision gorau posibl i'r economïau hynny o'r cyllid rydyn ni'n ei ddyrannu.

2. Gall ein gweithgareddau yn y meysydd polisi hyn gyfrannu'n sylweddol at themâu allweddol gwella cynaliadwyedd, creu cyfoeth a lles, sydd wrth wraidd ein Rhaglen Lywodraethu.

**Blaenoriaethau**

3. Er nad oes modd mynd i'r afael â holl faterion fy mhortffolio yn y papur hwn, rwyf wedi amlinellu manylion pellach isod ynghylch rhai o'm blaenoriaethau a'r gweithgareddau rwy'n bwrw ymlaen â nhw.

***Hwyluso'r Drefn***

4. Ystyr hwyluso'r drefn yw rhoi fframwaith rheoleiddio cyson a phriodol i'n cwsmeriaid, pobl Cymru. Mae darn pwysig o waith wedi bod yn ymchwilio i'r baich rheoleiddio ar ein ffermwyr a chynnig gwasanaeth gwell i gwsmeriaid. Mae'r 74 o argymhellion yn Hwyluso'r Drefn yn ymwneud â 7 mater allweddol, gan gynnwys:
   - Cyfathrebu
   - Cymorth y PAC
   - Archwiliadau
   - Iechyd a lles anifeiliaid
   - Cadw cofnodion
   - Rheoliadau amgylcheddol
   - Arallgyfeirio

5. Bydd ein gwaith ar Gwell Rheoleiddio a Hwyluso'r Drefn yn lleihau baich rheoleiddio ar fusnesau ffermio a'u helpu i gydymffurfio mor gyflym a synhwyrol â phosibl. Bydd Cyswllt Ffermio a'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm, ochr yn ochr â swyddogion rheng flaen eraill yn fy Adran, yn helpu i gyflawni'r amcan hwn drwy gynnig cefnogaeth a chymorth gwybodus i ffermwyr a choedwigwyr.

6. Bydd datblygu ceisiadau ar-lein yn gyflym yn symleiddio'r cais SAF i gwsmeriaid, ac mae grŵp rhanddeiliaid penodedig eisoes yn cymryd rhan

flaenllaw. Byddwn yn dechrau rhoi'r system ar brawf ym mis Tachwedd 2012, a bydd prosesau ymgeisio y SAF a Glastir ar-lein yn 2014.

7. Rwyf wrthi'n rhoi cynllun gweithredu ar waith i gyflawni argymhellion Hwyluso'r Drefn a gyflwynwyd i mi gan Gareth Williams ym mis Ionawr. Bydd Aelodau'r Pwyllgor yn ymwybodol o'r adroddiad cynnydd ar ffurf Datganiad Ysgrifenedig y cyflwynais gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar y mater hwn ar 16 Gorffennaf 2012.

***Y Strategaeth Fwyd***

8. Roedd y Strategaeth Fwyd a lansiwyd ym mis Rhagfyr 2010 yn bwrw golwg eang ac integredig ar faterion cyffredinol fel iechyd, diwylliant bwyd, addysg, diogelwch bwyd a'r newid yn yr hinsawdd. Nid oedd hyn wedi digwydd o'r blaen. Fodd bynnag, rwyf am fynd yn bellach a nodi'r camau penodol y mae angen eu cymryd i ddatblygu a chefnogi busnesau yn ein sector bwyd i greu swyddi, cyfoeth a busnesau cynaliadwy.

9. Rwy'n croesawu sefydlu'r Panel Sector Bwyd a Ffermio ym mis Hydref. Mae gan ei aelodau enw da haeddiannol am ragoriaeth ar draws y sector, ac mae ganddynt rôl bwysig i'w chwarae o ran rhoi cyngor ychwanegol i Lywodraeth Cymru ar faterion allweddol. Mae hyn yn rhoi bwyd a ffermio wrth wraidd polisïau economaidd y Llywodraeth.

10. Rwy'n ymwybodol bod y Panel wedi bod yn canolbwyntio ar ddatblygu'i gyngor i Weinidogion ar set o flaenoriaethau strategol, a'r ymyriadau dilynol y bernir y mae eu hangen i roi mwy o swyddi a thwf i'r economi. Yn arbennig, maen nhw wedi bwrw golwg ar rai o'r strwythurau cymorth busnes presennol, caffael cyhoeddus, hyrwyddo bwyd, ymgysylltu â manwerthwyr, a brandio bwyd o Gymru. Mae'r Panel yn bwriadu rhoi cyngor i Weinidogion ar ôl eu cyfarfod ym mis Gorffennaf.

11. Rwyf wedi gwneud ymrwymiad cyhoeddus clir i sicrhau mwy o flaenoriaeth i'n sector bwyd dros y blynyddoedd nesaf. Un o'r chwe blaenoriaeth ar gyfer yr UE cyfan o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig nesaf yw hyrwyddo trefniadaeth y gadwyn fwyd drwy integreiddio cynhyrchwyr sylfaenol yn well drwy gynlluniau ansawdd, hyrwyddo mewn marchnadoedd lleol a chylchoedd cyflenwi byr, grwpiau cynhyrchwyr a mudiadau rhyng-gangen.

12. Er mwyn llywio fy mhenderfyniadau yn y dyfodol ar y blaenoriaethau ar gyfer ymyriadau'r Llywodraeth, cynhaliais uwchgynhadledd fwyd uchel ei phroffil yn yr Ardd Fotaneg Genedlaethol ar 12 Gorffennaf eleni, ac roeddwn i wrth fy modd i Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru gytuno i agor y digwyddiad. Cymerais y cyfle pwysig hwn i wrando ar safbwyntiau ffigurau allweddol yn y sector bwyd. Bydd yr uwchgynhadledd yn sbardun ar gyfer ein gwaith strategol ar gynhyrchu bwyd yng Nghymru ac rwy'n edrych ymlaen at wneud datganiadau pellach ar ganlyniadau'r uwchgynhadledd yn ddiweddarach eleni.

13. Hefyd, ym mis Mehefin eleni, cynhaliais uwchgynhadledd y diwydiant llaeth yn Aberystwyth. Bydd Aelodau'r Pwyllgor wedi gweld y Datganiad Ysgrifenedig y cyhoeddais ar 11 Gorffennaf yn dilyn uwchgynhadledd y diwydiant llaeth.

***Y Diwydiant Pysgota***

14. Roedd fy natganiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 27 Mawrth yn gosod y ffordd y bydd Llywodraeth Cymru yn rheoli ein pysgodfeydd. Yn fy natganiad, amlinellais fy uchelgais ar gyfer cyflawni cynaliadywedd hirdymor ein pysgodfeydd er mwyn diogelu stociau pysgod a swyddi pysgodfeydd ein cymunedau arfordirol fel ei gilydd. Mae mwyafrif ein pysgodfeydd yn gynaliadwy yn ôl eu natur, gyda chychod bach yn bennaf sydd ond yn gallu gweithio tua 100 diwrnod y flwyddyn ac sy'n defnyddio offer sefydlog gan fwyaf. Mae hyn yn golygu bod modd dewis a dethol yn hawdd – felly mae modd taflu pysgod sy'n rhy fach yn ôl i'r môr yn fyw.

***Polisi Pysgodfeydd Cyffredin***

15. Yn fy natganiad ar 27 Mawrth, amlinellais y ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r cynigion i ddiwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin. Nodais fy mod wedi dadlau y bydd angen diwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin gan roi ystyriaeth ofalus i anghenion cymunedau pysgota arfordirol bach. Yn ogystal, rwyf wedi pwyso am ddull gweithredu mwy rhanbarthol sy'n galluogi Aelod-wladwriaethau i gydweithio a datblygu mesurau rheoli mewn ardaloedd fel Môr Iwerddon. Rwy'n croesawu'r cytundeb rhannol a luniwyd yn Lwcsembwrg ym mis Mehefin.

***Polisi Amaethyddol Cyffredin***

16. Rhoddais ddatganiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 22 Mai pan gyhoeddais Diwygio'r PAC 2014: Ymateb Llywodraeth Cymru. Mae'r papur hwn yn datgan fy marn ar y cynigion diwygio presennol. Hefyd rwy'n bwrw ymlaen â nifer o gamau gweithredu o dan faner y PAC, fel y nodir isod.

**Gwahaniaethau mewn taliadau**

17. Rwy'n cydnabod y gallai newid i cyfrifiad tir gor-syml fesul hectar o'r Taliad Uniongyrchol achosi newidiadau pellgyrhaeddol a sydyn yng Nghymru. Gallai Llywodraeth Cymru ystyried cyfuniad o fecanweithiau i sicrhau parhad yn y marchnadoedd a chydlyniant cymdeithasol yn dilyn y newid i daliadau ar sail arwynebedd. Mae'r rhain yn cynnwys y posibilrwydd o ddefnyddio nifer o gyfraddau gwahanol o daliad fesul hectar; y posibilrwydd o ddefnyddio cynllun cymorth cysylltiedig; meini prawf cymhwyster wedi'u mireinio ar gyfer y tir a ffermwyr actif; a newid dros gyfnod llawer hwy nag a ganiateir yn ôl y cynigion, ac mewn camau mwy graddol. Rwyf wedi pwyso ar y Comisiwn Ewropeaidd ynglŷn â hyn ac wedi cael ymateb ffafriol i weithredu system o daliadau gwahanol yng Nghymru. Mae gwaith modelu wedi bod yn mynd rhagddo, a bydd yn

parhau i benderfynu ar yr opsiwn gorau i Gymru. Byddaf yn lansio ymgynghoriad ar y materion hyn yn yr hydref.

**Elfennau gwyrdd y PAC**

18. Mae'r cynigion gwyrdd drafft yn gymhleth a gallai rhai o'r mesurau arfaethedig fod yn anodd eu cyflawni yng Nghymru. Rwyf wedi pwyso'n gyson i aelodaeth o Glastir fod yn gyfystyr yn awtomatig ag elfennau gwyrdd, ac mae cynigion diweddar y Comisiwn yn cefnogi hyn. Byddaf yn parhau i ddadlau achos ar lefel yr UE ar gyfer mireinio'r mesurau ymhellach.

**Ffermwyr Actif**

19. Yn wyneb pwysau o bob tu, rydyn ni'n disgwyl i'r Comisiwn gael gwared ar y prawf incwm cartrefi o'r diffiniad ffermwyr actif a chaniatáu diffiniad Aelod-wladwriaeth. Rwy'n galw am hyblygrwydd rhanbarthol wrth bennu'r diffiniad hwn ac rwy'n teimlo y dylid mesur cysyniad y ffermwr actif yn ôl gweithgarwch 'ar y fferm' yn hytrach na gweithgarwch 'oddi ar y fferm'. Os yw'r tir yn cael ei ddefnyddio a'i gadw mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da, yna caiff yr amodau hanfodol at ddibenion amaethyddol eu bodloni.

**Hawliau**

20. Rwy'n pwyso i benderfyniadau am ddefnyddio hawliau gael eu gwneud yn rhanbarthol ac iddynt fod yn wirfoddol. Rwy'n cynnig bod y Comisiwn yn ystyried caniatáu i ni weithredu heb system hawliau wedi i'r cyfnod pontio arfaethedig ddod i ben.

21. Hefyd, mae'r cynigion yn nodi mai dim ond ffermwyr a dderbyniodd y Taliad Sengl yn 2011 drwy ddefnyddio o leiaf un hawl taliad fydd yn gymwys i gael taliadau yn 2014. Rwyf wedi galw'n gyson am fwy o hyblygrwydd i'r perwyl hwn. Mae fy nhrafodaethau diweddar ar y mater hwn yn dangos bod Senedd Ewrop a Llywyddiaeth yr Undeb Ewropeaidd yn pwyso ar y Comisiwn Ewropeaidd ynghylch y pryderon hyn.

**Taliadau Pontio**

22. Rwyf o'r farn bod y cyfnod pontio arfaethedig o 5 mlynedd yn rhy fyr oherwydd nad yw'n ystyried yr effeithiau sylweddol ar rai yn sgil symud i daliadau arwynebedd, ac nid yw'n rhoi digon o amser i ffermwyr wneud yr addasiadau gofynnol i'w mentrau fferm. Rwy'n parhau i bwyso am gyfnod pontio hwy o 7 i 10 mlynedd, ac am gael bod yn fwy hyblyg i allu cyflwyno'r polisi hwn.

***Y Cynllun Datblygu Gwledig cyfredol***

23. Mae bron 80% o gyllid y CDG cyfredol yn canolbwyntio ar fesurau amaeth-amgylcheddol, ond byddai parhau fel hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i fuddsoddi mewn blaenoriaethau eraill fel cyflogaeth wledig, busnesau bach a chanolig ac adfywio cymunedol. Rwyf wedi ymrwymo i drothwy gofynnol o 60% ar gyfer ein gweithgarwch amaeth-amgylcheddol yn rownd nesaf y CDG. Byddaf yn adolygu'r ffigur hwn yn y dyfodol, ond mae hyn yn dystiolaeth glir o fy ymrwymiad i amddiffyn yr amgylchedd yng Nghymru.

24. Yn ddiweddar, cyhoeddais Grŵp Cynghori y Cynllun Datblygu Gwledig i roi argymhellion ar ffurf bosibl y rhaglen newydd ar gyfer 2014 – 20. Prif ffocws y grŵp yw ymchwilio i'r holl bosibiliadau a chyfleoedd i leddfu effaith y newid o'r cynllun taliad sengl hanesyddol i daliadau ar sail arwynebedd o dan ddiwygiadau colofn 1. Bydd y grŵp yn ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o amddiffyn ein hamgylchedd gwerthfawr, hyrwyddo a chefnogi cymunedau gwledig i fod yn fwy cynaliadwy ac economaidd weithgar, a sicrhau bod ein busnesau ffermio yn ddigon cryf i greu cyfoeth a diogelu a chreu swyddi.

***<u>Tagiau Electronig</u>***

25. Rwyf wedi datgan y safbwyntiau gwahanol diweddaraf ar faterion tagiau electronig defaid a gwartheg o dan y penawdau isod.

**Tagiau Electronig Defaid**

26. Cyhoeddais ym mis Mawrth y byddai Cymru'n datblygu gwasanaeth symud electronig ar gyfer defaid, gan ymgorffori cronfa ddata unigol ar gyfer defaid – 'EIDCymru'. Mae gwaith yn mynd yn ei flaen i ddatblygu'r gwasanaeth ac rwy'n disgwyl gwneud cyhoeddiadau pellach yn yr hydref. Bydd y system yn cynnig seilwaith canolog sy'n galluogi ffermwyr i gadw'u cofrestrau daliad, cofnodi symudiadau, ac i'r rheini sy'n dewis systemau meddalwedd ar fferm sydd ar gael yn fasnachol, cofnodi systemau'n electronig.

27. Bydd y gwasanaeth yn cymryd lle'r prosesau â llaw cyfredol fel bod modd cofnodi data symud unwaith a'i ddefnyddio sawl gwaith. Bydd hyn yn dileu cryn dipyn o'r biwrocratiaeth presennol, ond mae tagiau electronig hefyd yn gyfle i ffermwyr wneud mwy o elw. Rydyn wrthi'n asesu'r cyfleoedd masnachol ychwanegol o ddefnyddio EID a byddwn yn annog ffermwyr i ystyried y cyfleoedd hyn pan fyddant ar gael.

**Tagiau Electronig Gwartheg**

28. Ym mis Awst 2011, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd gynigion i gyflwyno tagiau electronig a diddymu'r gofynion gwirfoddol cyfredol ar gyfer labelu eidion. Gallai hyn olygu newidiadau sylweddol i bob Aelod-wladwriaeth, gan eu galluogi i gyflwyno tagiau electronig gorfodol, neu ddechrau defnyddiau tagiau electronig ochr yn ochr â systemau cyfredol.

Mae rhai consesiynau wedi'u cynnwys, ond bydd angen asesu'r effaith bosibl yn ofalus, yn enwedig cost a chymhlethdodau gweithredu system ddeuol, yn ogystal â'r buddsoddiad sylweddol y mae ei angen mewn TG.

29. Yn ystod trafodaethau swyddogol, nodwyd ystod o faterion ynghylch prif bryder y DU am yr opsiwn gwirfoddol, sydd ar hyn o bryd yn caniatáu i ffermwyr (yn hytrach nag Aelod-wladwriaethau) ddewis pryd i gyflwyno tagiau electronig. Rwy'n teimlo y byddai hyn yn ddryslyd pe bai'n cael ei roi ar waith fel y drafftiwyd. Yn ddiweddar, daethpwyd i gyfaddawd, sy'n cynnig annibyniaeth i Aelod-wladwriaethau benderfynu pryd i ddefnyddio tagiau electronig gwirfoddol neu orfodol am gyfnod (efallai 7 mlynedd), ac wedi hynny bydd yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau gyflwyno tagiau electronig gorfodol.

30. Yn y pen draw caiff y cynnig ei ystyried gan Senedd Ewrop a'r Cyngor Gweinidogion. Y cynharaf y mae disgwyl cytundeb yw diwedd 2012 ac mae trafodaethau manwl pellach yn golygu efallai na chaiff y ddarpariaeth ei rhoi ar waith tan 2013-14 neu hyd yn oed yn hwyrach.

31. Er mwyn rhoi'r system ar waith yng Nghymru, bydd angen ystyried y gofynion yng ngweinyddiaethau eraill y DU i gytuno ar y newidiadau sydd eu hangen yn y pen draw i'r ddeddfwriaeth a'r system TG.

***<u>Y Sector Llaeth</u>***

32. Rwy'n ymrwymedig o hyd i wneud popeth yn fy ngallu i gefnogi'r diwydiant llaeth yng Nghymru ac mae Llywodraeth Cymru yn cynnig ystod eang o gymorth ar amryw gamau yn y gadwyn gyflenwi, drwy nifer o sianelau pwysig.

33. Mae cynhyrchu a phrosesu llaeth yn rhan allweddol o dreftadaeth ein cenedl. Mae arferion hwsmonaeth da a chynhyrchion sylfaenol o ansawdd, yn ogystal ag adnoddau prosesu rhagorol, yn rhan arwyddocaol o ddiwylliant Cymru. Rwy'n awyddus i edrych o'r newydd ar y blaenoriaethau ar gyfer y diwydiant i sicrhau bod ganddo ddyfodol iach yn yr hirdymor.

34. Yn uwchgynhadledd y diwydiant llaeth ar 22 Gorffennaf, daeth rhanddeiliaid o'r diwydiant llaeth ynghyd i drafod y materion allweddol. Diben yr uwchgynhadledd oedd gwrando ar eu safbwyntiau, yn enwedig o ran eu barn ynghylch beth dylai fod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth. Byddaf yn defnyddio'r wybodaeth o'r digwyddiad i lywio fy mhenderfyniadau yn y dyfodol ar gymorth ar gyfer y sector pwysig hwn yn y diwydiant.

35. Rwy'n awyddus i ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid allweddol yn y diwydiant llaeth ac wedi datgan yn glir bod Llywodraeth Cymru am ganolbwyntio ar gyflawni camau wedi'u targedu i gynyddu cyfraniad economaidd y sector a chynyddu cyflogaeth, yn unol â'r Rhaglen

Lywodraethu gyfredol. Mae uwchgynhadledd Mehefin, ynghyd â'r Uwchgynhadledd Fwyd uchel ei phroffil ar 12 Gorffennaf, ill dwy yn hanfodol bwysig o ran llywio fy mhenderfyniadau ar y ffordd orau o dargedu ymyriadau'r llywodraeth yn y tymor byr a'r hirdymor i gynnig y manteision gorau posibl i'r diwydiant a'r economi.

***Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Bwyd***

36. Bydd sefydlu Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Bwyd yn gorfodi'r Cod Ymarfer Cyflenwi Bwyd ar hyd y gadwyn gyflenwi i sicrhau arfer da ac ymchwilio i unrhyw amheuon o annhegwch. Er nad yw'r polisi cystadleuaeth wedi'i ddatganoli, gall rôl y Dyfarnwr effeithio ar swyddogaethau datblygu bwyd a ffermio sydd wedi'u datganoli. Manwerthwyr mawr fydd yn talu am y Dyfarnwr.

37. Mae Llywodraeth wedi cefnogi sefydlu Dyfarnwr o'r fath ers tro, fel sydd wedi'i nodi yn Rhaglen Lywodraethu 2011, ac rwyf wedi bod yn pwyso am gryfhau rôl y Dyfarnwr drwy roi'r pŵer iddo osod dirwyon o'r cychwyn, gwrando ar gwynion yn ddienw, a sicrhau mynediad mor eang â phosibl, a fyddai'n cynnwys cyflenwyr anuniongyrchol fel ffermwyr a chymdeithasau masnach. Er bod y Bil newydd yn cyflawni'r addewidion ar faterion mynediad a chyfrinachedd, nid yw'n rhoi'r pŵer o'r cychwyn i'r Dyfarnwr ddirwyo'r manwerthwyr hynny sy'n camddefnyddio'r cod cyflenwi bwyd. Mae fy swyddogion wedi gweithio gyda Llywodraeth y DU i fynegi buddiannau Cymru yn llawn. Hefyd rwyf wedi ysgrifennu at yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, ac rwy'n disgwyl cwrdd â Gweinidog y DU i fwrw ymlaen â'r mater.

38. Yn fras, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi sefydlu Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Bwyd ledled y DU. Rwy'n gobeithio gweld rhai gwelliannau pellach i'r Bil hwn wrth iddo fynd drwy Senedd y DU, a gweld y corff ei hun yn cael ei sefydlu'n fuan wedyn.

***Cynaliadwyedd***

39. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i bolisïau a gweithrediadau sy'n gynaliadwy. Wrth wraidd y meysydd blaenoriaeth a nodir yn y papur hwn mae cefnogaeth i bob agwedd ar arfer da o ran rheoli'r tir, ffermio cynaliadwy, prosesu bwyd, defnydd ynni a dŵr, a lleihau gwastraff. Bydd arfer da hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig i amcanion Strategaeth Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru i leihau 3% bob blwyddyn ar allyriadau nwyon tŷ gwydr ac addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Mae fy mhortffolio yn sbardun polisi hollbwysig ac yn rhan annatod o gyflawni dyheadau Llywodraeth Cymru i fod ar flaen y gad ym maes datblygu cynaliadwy, gan wynebu her y newid yn yr hinsawdd.

**Alun Davies**

**Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd**
**Gorffennaf 2012**

# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

## E&S(4)-22-12 papur 2

## Ymchwiliad i Glastir - Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd

***<u>Glastir: Cefndir</u>***

1. Ym mis Medi 2008, cyhoeddodd Elin Jones AM, y Gweinidog dros Faterion Gwledig gynt, adolygiad o gynlluniau Echel 2 y CDG yng Nghymru. Canfu'r adolygiad fod gan y cynlluniau amaeth-amgylchedd cyfredol ddiffyg amcanion a llinell sylfaen glir, ac nad oedd modd asesu i ba raddau y maen nhw'n mynd i'r afael â'r cynigion sydd newydd eu cyflwyno ar gyfer Archwiliad Iechyd y PAC. Ar 5 Mai 2009, cyhoeddodd y Gweinidog y byddai'r pedwar cynllun Echel 2 cyfredol yng Nghymru (Tir Cynnal, Tir Gofal, Tir Mynydd a'r Cynllun Ffermio Organig) yn cael eu troi'n un cynllun sengl ar 1 Ionawr 2012, o dan yr enw Glastir i fynd i'r afael â'r heriau newydd a amlinellir yng nghynigion yr Archwiliad Iechyd. Cyhoeddwyd yn ddiweddarach ym mis Gorffennaf 2010 y byddai Glastir hefyd yn cymryd lle'r cynllun Coetiroedd Gwell i Gymru.

2. Cafwyd cyfnod o drafod dwys â rhanddeiliaid yn dilyn y cyhoeddiad. Cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru droeon â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys yr undebau ffermwyr, y Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad, y Parciau Cenedlaethol, Fforwm Tir Comin Cymru, asiantaethau amgylcheddol a sefydliadau anllywodraethol eraill sydd â buddiant mewn amcanion rheoli tir cynaliadwy. Cynhaliwyd dros 100 o gyfarfodydd gyda ffermwyr fel rhan o'r broses i esbonio'r cynllun newydd i ymgeiswyr posibl yn y diwydiant.

3. Wedi i gyfnod ymgeisio Glastir 2010 ddod i ben, cyhoeddodd y Gweinidog ar y pryd adolygiad annibynnol o Elfen Cymru Gyfan Glastir – Adolygiad Rees Roberts – oedd yn tynnu ynghyd sylwadau gan yr undebau ffermio, y Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad, Canolfan Organig Cymru, Cyswllt Amgylchedd Cymru, y Clwb Ffermwyr Ifanc a'r diwydiant godro. Cyflwynodd yr adolygiad ei adroddiad ym mis Mawrth 2011, gan argymell 69 o gamau gweithredu. Derbyniodd y Gweinidog y mwyafrif o'r camau gweithredu, a derbyniais i nhw adeg fy mhenodi yn Ddirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd yn dilyn etholiad y Cynulliad. Rhoddwyd y mwyafrif o'r camau hyn ar waith erbyn yr hydref 2011.

Amlinellir y broses gyflwyno a'r niferoedd sydd wedi ymuno â phob elfen o'r cynllun Glastir yn Nhabl 1.

| Elfen y Cynllun | Contractau/Galw |
| --- | --- |
| Elfen Cymru Gyfan 2012 | 1,700 o gontractau wedi'u llofnodi |
| Elfen Cymru Gyfan 2013 | Tua 700 o ymgeiswyr |
| Elfen Cymru Gyfan 2014 | Tua 9,000 wedi mynegi diddordeb ar y SAF |
| ACRES 2012 | 700+ cais ar gyfer themâu wedi'u dethol |
| Elfen wedi'i Thargedu 2013 | 420 wedi'u dethol ar gyfer ymweliad |
| Rheoli Coetir Glastir | 249 o geisiadau |
| Creu Coetir Glastir | 356 o gontractau |
| Elfen Tir Comin 2012 | 107 o gontractau |
| Elfen Tir Comin 2013 | 100+ wedi mynegi diddordeb |

Tabl 1: Y niferoedd sydd wedi ymuno ag elfennau Glastir

4. Roedd y nifer fawr a fynegodd ddiddordeb yn wreiddiol yn Elfen Cymru Gyfan a'r dyheadau ar gyfer y cynllun gan Lywodraeth Cymru yn golygu y beirniadwyd y nifer a ymunodd i ddechrau ag Elfen Cymru Gyfan. Gwnaeth tua 3,000 o ffermwyr gais yn rownd ymgeisio cyntaf Elfen Cymru Gyfan Glastir yn hydref 2010. Llofnododd ychydig dros 1700 o ffermwyr gontractau Elfen Cymru Gyfan Glastir yn y flwyddyn gyntaf, a chafwyd 700 o geisiadau pellach yn y cyfnod ymgeisio nesaf. Cyn agor y cyfnod ymgeisio cyntaf, rhoddwyd nifer o drefniadau ymestyn (Tabl 2) ar waith ar gyfer derbynwyr cyfredol Tir Gofal, Tir Cynnal a Tir Mynydd. Roedd hyn o fudd i fwy na 12,000 o ffermwyr, ond arweiniodd at lawer llai o alw a photensial i ffermwyr ymuno ag Elfen Cymru Gyfan Glastir yn y blynyddoedd cynnar. Yn sgil cyflwyno newidiadau yr adolygiad Rees Roberts yn gyflym, roedd peth dryswch ynghylch y broses ymgeisio i'r rheini a oedd eisoes wedi gwneud cais, gyda rhai ffermwyr yn tynnu'n ôl i ystyried eu hopsiynau ymhellach yng ngoleuni'r newidiadau.

| Enw'r cynllun | Ymestyn cytundebau tan ddiwedd 2013 |
| --- | --- |
| Tir Gofal | 3,799 |
| Tir Cynnal | 2,820 |
| Cynlluniau ffermio organig | 1,032 |

Tabl 2: Trefniadau ymestyn ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylcheddol cyfredol.

5. Mae'r cynllun wedi bod yn llwyddiannus iawn mewn meysydd eraill. Mae'r galw wedi bod yn arbennig o dda am yr Elfen Tir Comin ac os bydd pawb sydd wedi mynegi diddordeb yn llofnodi cytundeb, amcangyfrifir y bydd

dros 75% o dir comin cymwys (dros 35% ar hyn o bryd) o dan y cynllun erbyn dechrau 2013. Mae hyn yn cymharu â llai na 2% o dir comin mewn cynllun amaeth-amgylcheddol cyn lansio Glastir. Bydd hyn yn gam pwysig sylweddol tuag at roi ucheldir yn gynaliadwy, sy'n hanfodol o ran rheoli effeithiol ar ddalfeydd carbon, bioamrywiaeth a rheoli dŵr yng Nghymru.

6. Mae llawer wedi ymuno ag ACRES, Rheoli Coetir Glastir a'r Elfen wedi'i Thargedu, a'r gyllideb ac adnoddau prosesu fydd neu sy'n debygol o gyfyngu ar nifer y contractau sy'n cael eu llofnodi yn y flwyddyn gyntaf, yn hytrach na'r galw. Bydd ymgeiswyr sy'n bodloni'r meini prawf ond a oedd yn aflwyddiannus yn y flwyddyn gyntaf yn cael eu hystyried eto mewn rowndiau dethol pellach wrth i'r cynllun barhau i gael ei gyflwyno. Mae'r galw wedi bod yn dda am y cynllun Creu Coetir Glastir o gymharu â chynlluniau plannu coetir blaenorol o dan Echel 2 y CDG.

7. Rhoddais ddatganiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mawrth ar nifer y ffermwyr oedd wedi ymuno â chynllun Glastir, a chyhoeddais y byddwn yn pwyso a mesur y cynllun dros gyfnod addas, ac yn gwneud penderfyniad pellach cyn toriad yr haf. Ar 3 Gorffennaf, cyhoeddais ganlyniad yr ymarfer pwyso a mesur drwy ddatganiad llafar gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

***Canlyniad Pwyso a Mesur***

8. Mae'r adroddiad pwyso a mesur llawn a'm datganiad llafar dyddiedig 3 Gorffennaf ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/farming/glastirhome/glastirstocktake/glastirstocktake/?lang=cy.

Dyma brif ganlyniadau fy ymarfer pwyso a mesur:

- Proses ymgeisio agored yn hytrach na chyfnod ymgeisio gyda dyddiadau terfyn blynyddol o 2013 ymlaen.
- Ymrwymiad i gwtogi gofynion cadw cofnodion lle bo'n bosibl.
- Mwy o adnoddau i wella'r cyfathrebu strategol a gweithredol am y cynllun.
- Defnyddio'r fenter lwyddiannus Swyddogion Datblygu Tir Comin yn fwy helaeth i gefnogi elfennau eraill cynllun Glastir.
- Derbyn y 148 o argymhellion fel rhan o'r broses pwyso a mesur.
- Ailenwi elfennau Glastir i gynnig mwy o eglurder i ymgeiswyr posibl yn y diwydiant ffermio (gweler Tabl 3)

| |
|---|
| Hen enw – *Elfen Cymru Gyfan Glastir*:<br>Enw newydd – Glastir Entry / Glastir Sylfaenol |
| *Elfen wedi'i Thargedu Glastir:*<br>Glastir – Advanced / Glastir Uwch |
| *Elfen Tir Comin Glastir:*<br>Glastir – Commons / Glastir – Tir Comin |
| *Cynllun Creu Coetir Glastir*:<br>Glastir – Woodlands creation / Glastir - Creu Coetiroedd |
| *Cynllun Rheoli Coetir Glastir*:<br>Glastir - Woodlands management / Glastir Rheoli Coetiroedd |
| *Cynllun Lleihau Carbon Amaethyddol*:<br>Glastir - Efficiency grants / Glastir - Grantiau Effeithlonrwydd |

Tabl 3

10. Ni fyddaf yn cyhoeddi newidiadau ychwanegol i fanylion y cynllun rwyf wedi'u derbyn ond lle mae angen addasu'r CDG ymhellach nes bod canlyniad gynigion yr elfennau gwyrdd o dan golofn 1 y PAC yn hysbys a bod y rheoliadau Datblygu Gwledig newydd mewn grym. Y dewis arall fyddai addasu'r CDG cyfredol cyn diwedd 2013 ac yna cyflwyno newidiadau pellach yn sgil diwygio'r PAC. Fodd bynnag, byddai hyn yn golygu gorfod ailysgrifennu nifer o gontractau ac ansefydlogrwydd yn y cynllun o hyd. Rwyf wedi penderfynu felly rhoi'r newidiadau hyn ar waith yn 2015 er mwyn cael cyfnod o sefydlogrwydd yn y cynllun fel y mae ffermwyr wedi bod yn pwyso amdano.

***<u>Cwestiynau penodol gan Bwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd ac ymateb Llywodraeth Cymru.</u>***

**Cw.** *Faint o gyllid y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ymrwymo i gontractau Elfen Cymru Gyfan ar gyfer blwyddyn galendr 2012?*

**Ymateb Llywodraeth Cymru** Amcangyfrif gwariant presennol 2012 ar gontractau Elfen Cymru Gyfan yw £5,881,999.

**Cw.** *Faint o gyllid y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ymrwymo i gontractau Elfen ACRES ar gyfer blwyddyn galendr 2012?*

**Ymateb Llywodraeth Cymru** Amlinellir gwerth yr ymrwymiadau o rownd dethol ACRES 2012 (sy'n cael eu talu dros ddwy flwyddyn ariannol) yn Nhabl 4 isod. Nid yw'r holl hawliadau wedi'u prosesu eto.

**Mae'r tabl yn dyrannu cost ar sail pob ymgeisydd yn gwneud cais ar gyfradd o 40%. Fodd bynnag, bydd y ffigurau ychydig yn uwch oherwydd bod ffermwyr ifanc sy'n gwneud cais yn derbyn grant o 50% grant (nid yw'r data hwn ar gael ar hyn o bryd).*

| | **Gwerth Dyfynbris** | **Gyda Grant o 40%** |
|---|---|---|
| **Cyfanswm gwerth eitemau rownd dethol 2012 y rhagwelir eu hawlio yn 2012/2013** | **£3,066,787** | **£1,226,714.80** |
| **Cyfanswm gwerth eitemau rownd dethol 2012 y rhagwelir eu hawlio yn 2013/2014** | **£7,889,929** | **£3,155,971.60** |
| **Cyfanswm yr ymgeisiwyd amdano** | **£10,956,716** | **£4,382,686.40** |

Tabl 4 Rhagolwg ymrwymiadau ariannol ACRES 2012

Yn ei lythyr dyddiedig 21 Mehefin 2012, nododd y Pwyllgor y materion canlynol yr hoffai ymchwilio ymhellach iddynt ymhellach:

***Mater 1:*** *Cyfleu amcanion y cynllun ac awgrymiadau ynghylch sut gellir gwell canfyddiadau o'r cynllun. Pwysleisiodd rhanddeiliaid bod canfyddiad o hyd ei bod yn anodd ymuno â'r cynllun ac nad yw llawer o ffermwyr yn ymwybodol o hyd o'r newidiadau i'r cynllun yn dilyn adolygiad Rees Roberts. Pwysleisiodd yr holl randdeiliaid bwysigrwydd sicrhau bod y rheini yn Elfen Cymru Gyfan ar hyn o bryd yn cael profiad da.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhellion yr ymarfer pwyso a mesur bod angen gwella cyfathrebu strategol a gweithredol am gynllun Glastir. Caiff swyddog cyfathrebu strategol ei benodi i reoli cynllun cyfathrebu y cynllun Glastir. Yn arbennig, bydd y cynllun yn canolbwyntio ar gyfleu o'r newydd y prif amcanion Glastir, dangos enghreifftiau o lwyddiant a defnyddio astudiaethau achos i helpu ffermwyr i ddeall beth yw amcanion y cynllun a sut gallant ymgysylltu â'r broses.

***Mater 2:*** *Diffyg swyddogion prosiect i gefnogi Elfen Cymru Gyfan – awgrymodd nifer o'r ymatebwyr i'r Pwyllgor y gallai defnyddio mwy o swyddogion prosiect helpu i gynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan yn y cynllun.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Mae defnyddio swyddogion prosiect unigol i gael ffermwyr i lofnodi cytundebau ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylcheddol sylfaenol yn gofyn am lawer o adnoddau. 700 oedd y nifer fwyaf o ffermwyr a ymunodd â Tir Gofal mewn un flwyddyn galendr, pan oedd Llywodraeth Cymru yn cyflogi dros 40 o swyddogion prosiect. Nid yw'n bosibl cael cynifer o

swyddogion yn yr hinsawdd ariannol presennol. Cydnabu GAAG 2011 y cyfyngiadau ar adnoddau mewnol y llywodraeth yn yr hinsawdd economaidd presennol, gan ddod i'r casgliad y byddai'n well i ffermwyr sy'n methu llenwi'u ffurflenni ddod o hyd i'w cyngor eu hunain i'w helpu i ymuno â'r cynllun – mewn rhai achosion drwy'r gwasanaeth Cyswllt Ffermio a ariennir ar hyn o bryd drwy'r CDG. Roedd nifer o ffermwyr yn defnyddio'r gwasanaeth hwn i'w helpu i benderfynu a oedd yn gwneud synnwyr o safbwynt busnes i ymuno â Glastir. Roedd GAAG 2011 o'r farn bod defnyddio gwasanaethau presennol fel Cyswllt Ffermio yn well na defnyddio arian ychwanegol o gyllideb y CDG i ariannu swyddogion penodedig Elfen Cymru Gyfan Glastir.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod Swyddogion Datblygu Tir Comin wedi gwneud yn arbennig o dda o ran hwyluso creu cymdeithasau pori a cheisiadau i'r Elfen Tir Comin. Gyda mwyafrif y tir comin cymwys bellach yn rhan o'r cynllun neu'n destun datganiad mynegi diddordeb eleni, bellach mae cyfle i ddefnyddio Swyddogion Datblygu Tir Comin yn fwy helaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau gyda'r Grwpiau Gweithredu Lleol i geisio adnewyddu ac addasu'r contract Swyddogion Datblygu Tir Comin i sicrhau bod eu cymorth ar gael yn fwy helaeth yn Glastir yn arbennig i gynnig cymorthfeydd a gwasanaethau cynghori lleol.

***Mater 3:*** *Gofynion cadw gwybodaeth a chofnodion Elfen Cymru Gyfan a'r awgrymiadau ar sut i symleiddio hyn – holwyd cwestiynau ynghylch pa mor angenrheidiol yw rhai o'r gofynion cadw cofnodion, a mynegwyd pryder difrifol ynghylch y biwrocratiaeth sy'n codi yn sgil y gofynion hyn;*

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Mae Rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd yn ei gwneud yn ofynnol dilysu a rheoli rhai o ofynion y cynllun drwy gadw cofnodion. Fel yr amlinellwyd yn fy natganiad ar 3 Gorffennaf, caiff y gofynion hyn eu hadolygu i sicrhau nad yw Llywodraeth Cymru yn gofyn am fwy nag sy'n ofynnol gan archwilwyr y Comisiwn Ewropeaidd.

***Mater 4:*** *Pryder ynghylch y mecanweithiau taliadau ar gyfer gwaith cyfalaf a'r angen i esbonio'r mecanweithiau newydd yn well i ffermwyr – nodwyd bod newid y dull gweithredu a sut mae hyn yn cael eu gyfleu i ffermwyr fel rhywbeth sy'n achosi ansicrwydd i ffermwyr;*

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Mynegwyd hyn yn y gorffennol ac ymddengys bod ffermwyr yn y cynllun yn deall sut caiff gwaith cyfalaf ei ad-dalu yn ystod y cynllun. Fodd bynnag, byddwn yn cyfathrebu eto i gyfleu'r neges hon. Caiff 100% o waith cyfalaf Glastir ei ad-dalu, gydag 20% y flwyddyn yn ystod 5 mlynedd y cynllun. Mae'n rhaid cwblhau gwaith erbyn diwedd yr ail flwyddyn. Rydyn ni'n derbyn y dylid rhoi cyfnod ychwanegol o 3 mis ar gyfer y gweithgarwch oherwydd bydd newid o dan y CDG nesaf yn rhoi dau aeaf llawn i ffermwyr gwblhau'r gwaith. Dylid nodi mai dim ond 60% o'r rhan fwyaf o waith cyfalaf oedd yn cael ei ad-dalu o dan gynllun Tir Gofal %.

***Mater 5:*** *Yr Elfen wedi'i Thargedu a'r pherthynas ag Elfen Cymru Gyfan – nodwyd materion ynghylch diffyg gwybodaeth sydd ar gael ynghylch yr Elfen wedi'i Thargedu a'r datgysylltiad rhwng prosesau ymgeisio y ddwy elfen;*

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Bwriedir dechrau symleiddio cynlluniau Elfen Cymru Gyfan (Glastir – Sylfaenol bellach) a'r Elfen wedi'i Thargedu (Glastir – Uwch bellach) o'r flwyddyn nesaf ymlaen. I ddechrau, bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud hyn drwy flaenoriaethau deiliaid cytundebau Tir Gofal sydd wedi gwneud cais i Glastir – Sylfaenol ac sydd â digon o bwyntiau i gael eu dewis ar gyfer cynllun Glastir – Uwch. Bydd rheolwr contract yn ymweld â'r ffermwyr hyn cyn iddynt ymuno â'r naill elfen fel bod modd esbonio'r "pecyn cyfan" iddyn nhw. Yn yr hirdymor, fy amcan yw cyflwyno hyn i bob ymgeisydd sy'n sgorio digon o bwyntiau i ymuno â'r cynllun Uwch yn y flwyddyn maen nhw'n gwneud cais ar gyfer Glastir – Sylfaenol. Hefyd bydd gwybodaeth ychwanegol am yr elfen Uwch ar gael ar-lein.

***Mater 6:*** *Pryder ynghylch rhoi'r Cynlluniau Creu a Rheoli Coetir ar waith –gan gynnwys p'un a yw'r cynlluniau'n rhoi digon o ystyriaeth i safbwyntiau rhanddeiliaid coedwigaeth masnachol.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Mae prif bryderon rhanddeiliaid y sector coedwigaeth yn ymwneud â gofynion newid rhywogaeth ar gyfer amodau ailstocio dros 400m yng nghynllun Rheoli Coetir Glastir. Mae rhanddeiliaid o'r farn bod y canran mwyaf o brif rywogaeth a ganiateir (e.e. sbriws Sitka) yn rhy isel. Yn ystod ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi caniatáu cynnydd yn y canran hwn o 70% i'r 75%; mae rhanddeiliaid yn dadlau dros gynnydd pellach i 80%. Mae angen cymysgedd o rywogaeth eilaidd i fod yn fwy cadarn rhag y newid yn yr hinsawdd, peryglon i iechyd planhigion a chynyddu gwerth bioamrywiaeth coetiroedd. Mae cymhariaeth â Safon Coedwigaeth y DU (UKFS), sy'n gosod y safonau gorfodol ar gyfer trwydded cwympo coed, yn dangos mai dim ond mantais arwynebedd o 3% fyddai o fodloni gofynion y coedwigwyr masnachol uwchlaw llinell sylfaen gofynion UKFS dros arwynebedd taladwy y cynllun. Ni fyddai hyn yn cynnig gwerth da am arian i bobl Cymru a phrin fyddai'r manteision amgylcheddol ychwanegol o'r cynllun.

Rwy'n derbyn yn fy ymateb i'r ymarfer pwyso a mesur y dylid gostwng 50m ar y bandiau uchder fel bodd modd defnyddio canran uwch o brif rywogaethau ar dir is. Yn ogystal, rwy'n derbyn bod angen edrych yn fanylach ar gynllun Creu Coetir Glastir i weld a oes modd lleihau ar unwaith yr arwynebedd sy'n cael ei gyfrif yn anghymwys ar gyfer plannu.

**Alun Davies AC**
**Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd**